# Sut i gydnabod eich grant gan Lywodraeth Cymru

See all updates
Fel rhan o'ch grant gan Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid i chi gydnabod eich cyllid ar gyfryngau cymdeithasol, drwy ddatganiadau i'r wasg, a thrwy arddangos logo ein partneriaeth. Bydd y wybodaeth ar y dudalen hon yn eich helpu i wneud hyn.

Mae pedair rhaglen ariannu yr ydym yn eu darparu ar ran Llywodraeth Cymru neu mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru: Rhwydweithiau Natur, Coetiroedd Cymunedol, Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Chwalu Rhwystrau.

## Cyfeirio at eich grant mewn naratif

Os ydych yn cyfeirio at eich grant mewn deunyddiau marchnata fel datganiadau i'r wasg neu ar eich gwefan, defnyddiwch y llinellau canlynol, yn ôl y rhaglen rydych yn derbyn cyllid gan:

### Rhwydweithiau Natur

Ariennir y prosiect yma gan y Rhaglen Rhwydweithiau Natur. Mae'n cael ei ddarparu gan y Gronfa Treftadaeth, ar ran Llywodraeth Cymru.

### Coetiroedd Cymunedol

Ariennir y prosiect yma gan y cynllun Coetiroedd Cymunedol. Mae'n cael ei ddarparu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

### Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG)

Ariennir y prosiect hwn gan gynllun y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd (TWIG). Mae'n cael ei ddarparu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

### Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Ariennir y prosiect yma gan y cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Mae'n cael ei ddarparu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

### Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Chwalu Rhwystrau

Ariennir y prosiect hwn gan y cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Chwalu Rhwystrau. Mae'n cael ei ddarparu gan y Gronfa Treftadaeth, ar ran Llywodraeth Cymru.

### Coetiroedd Bach yng Nghymru

Ariennir y prosiect hwn gan y cynllun Coetiroedd Bach yng Nghymru. Darperir y ddwy raglen grant hyn gan y Gronfa Treftadaeth ar ran Llywodraeth Cymru.

## Defnyddio ein logo partneriaeth

Gallwch lawrlwytho'r logo(s) partneriaeth dwyieithog perthnasol sydd eu hangen arnoch o'r dudalen hon a'u defnyddio yn unrhyw le lle gall pobl eu gweld yn glir. Darllenwch y wybodaeth isod i benderfynu pa logo partneriaeth sy'n iawn i chi.

### Y Loteri Genedlaethol

Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd dau), Mae Coetiroedd Cymunedol, Grant Buddosddi mewn Coetir (TWIG) a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn cael eu hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac arian a godir gan y Loteri Genedlaethol. Felly, ar gyfer y rhaglenni hyn, defnyddiwch ein logo g **yda bysedd croes y Loteri Genedlaethol** yn y gornel chwith uchaf.

Mae Chwalu Rhwystrau, Coetiroedd Bach yng Nghymru a Rhwydweithiau Natur (rownd un, rownd tri) wedi'u hariannu dim ond gan Lywodraeth Cymru, felly defnyddiwch ein logo **heb y bysedd croes** os gwelwch yn dda.

Gallwch lawrlwytho eich logo perthnasol o'r naill ffolder neu'r llall o'r ffolderi canlynol:

Logos partner Llywodraeth Cymru a ariennir gan y Loteri Genedlaethol
Logos partner nad ydynt yn cael eu hariannu gan y Loteri – Llywodraeth Cymru

### Fformatau logo

Mae gennym logos ar gael yn y fformatau canlynol:

- **JPEG** – defnyddir y fformat hwn yn eang ar gyfer cyhoeddi safonol (er enghraifft, i'w ddefnyddio ar PowerPoint neu MS Word.) Mae'r rhain ar gael mewn du yn unig.
- **PNG** – ar gyfer cyhoeddi gwe o ansawdd uchel
- **EPS** – ar gyfer argraffu o ansawdd uchel, a ddefnyddir gan ddylunwyr graffig

Wrth ddefnyddio logo partneriaeth, defnyddiwch ef yn ei gyfanrwydd i sicrhau bod y berthynas ariannu a chyflawni yn cael ei chynnal.

Ni ddylid byth newid y logos, er enghraifft, **peidiwch ag**: ystumio neu newid yn anghymesur, defnyddio un iaith ar ei phen ei hun gan fod yn rhaid iddynt fod yn ddwyieithog, tynnu unrhyw deip, neu newid cyfeiriad y ddraig Gymreig – rhaid iddi wynebu'r chwith bob amser.

### Lliwiau

Mae dwy fersiwn lliw o logos y bartneriaeth: du a gwyn.

Bydd eich lliw cefndir yn pennu pa fersiwn i'w ddefnyddio:

- os ydych yn defnyddio print un lliw, defnyddiwch y fersiwn ddu o'r logo
- wrth osod y logo ar gefndiroedd lliw tywyll, defnyddiwch fersiwn gwyn y logo bob amser

Dim ond mewn du neu wyn y dylid atgynhyrchu'r logo, peidiwch â defnyddio unrhyw liw arall.

### Cydnabyddiaeth fawr

Ar gyfer deunyddiau cydnabod mwy – er enghraifft ar baneli dehongli awyr agored – gwnewch yn si?r bod y logo'n ddigon mawr i'w weld yn glir o bellter o bum metr.

### Maint lleiaf

Mae'r maint lleiaf yn cyfeirio at holl led logo'r bartneriaeth. Er mwyn sicrhau bod y logo'n glir ac yn ddarllenadwy, y maint lleiaf y dylai ymddangos yw 108mm mewn print a 306px ar y sgrin.

## Y cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus

Cyn cychwyn neu gymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddiad am waith rydym wedi'i ariannu, rhaid i chi gysylltu â'ch Rheolwr Buddsoddi neu swyddfa'r wasg Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Rhowch wybod iddynt am unrhyw weithgareddau pellach yn y wasg.

## Rhannu ar gyfryngau cymdeithasol

Os yw'n bosibl a lle mae lle yn caniatáu, tagiwch Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Treftadaeth yn eich negeseuon.

### Twitter

@NewidHinsawdd / @WGClimateChange

@HeritageFundCYM

### Instagram a Facebook

@NewidHinsawdd / @WGClimateChange

@HeritageFundCYM

### LinkedIn

@LlywodraethCym / @WelshGovernment

@NationalLotteryHeritageFund

## Ein hashnodau

Mae gwahanol hashnodau ar gyfer pob rhaglen ariannu:

- **Rhwydweithiau Natur:** #RhwydweithiauNatur / #NatureNetworks
- **Coetiroedd Cymunedol:** #CoedwigGenedlaetholCymru / #NationalForestWales
- **Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG):** #CoedwigGenedlaethol / #NationalForestWales
- **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a Chwalu Rhwystrau:** #LleoeddLleolArGyferNatur / #LocalPlacesForNature
- **Coetiroedd Bach:** #CoetiroeddBach / #TinyForests

## Lluniau

Bydd defnyddio lluniau gwych yn rhoi'r cyfle gorau i'ch negeseuon gael sylw. Defnyddiwch unrhyw beth sy'n dangos gwerth y gwaith anhygoel rydych chi'n ei wneud.